technocamps

Inspiring | Creative | Fun
Ysbrydoledig | Creadigol | Hwyl

@Technocamps www.technocamps.com Find us on Facebook

Greenfoot

Mae Greenfoot yn addysgu rhaglennu sy'n seiliedig ar wrthrychau â'r iaith rhaglennu boblogaidd a gwerthfawr Java. Mae'n eich galluogi i greu "actorion" sy'n byw mewn "bydoedd" er mwyn datblygu gemau, efelychiadau neu greu eich animeiddiad eich hun. Rhaglennir yr actorion trwy god testunol safonol Java, gan ddarparu cyfuniad o brofiad rhaglennu mewn iaith draddodiadol sy'n seiliedig ar destun a gweithredu gweledol. Mae'n amgylchedd gweledol a rhyngweithiol sy'n addas iawn i ddechreuwyr a chanddynt brofiad o amgylcheddau rhaglennu "llusgo a gollwng" sydd am wella'u sgiliau rhaglennu ymhellach.

Sgiliau

- Datrys Problemau
- Cyfathrebu
- Gwella'ch Dysg a'ch Perfformiad eich Hun
- Gweithio gydag Eraill
- TGCh
- Rhifedd
- Creadigrwydd

Deilliannau Dysgu Allweddol

- Cyflwyno rhesymeg, iteriadau, dilyniannau a dewisiadau
- Cyflwyniad i raglennu Java
- Cyflwyniad i raglennu sy'n seiliedig ar Wrthrychau

Amlinelliad o'r Gweithdy

- Cyflwyniad i ddilyniannau
- Rhagflas o raglennu sy'n seiliedig ar wrthrychau
- Ymgyfarwyddo â chystrawen Java
- Creu gêm gyfrifiadur eich hun

Pam Technocamps?

Mae Technocamps yn brosiect cyffrous sy'n darparu gweithdai am ddim i bobl ifanc ar raglennu, roboteg, cynllunio gemau, datblygu apps a llawer mwy... Y nod yw ysbrydoli pobl ifanc (11-19 oed) yng Nghymru i ymddiddori mewn Cyfrifiadureg a STEM gan eu herio i feddwl am y byd o'u cwmpas mewn modd gwahanol.

i.t.wales www.itwales.com
Swansea University Prifysgol Abertawe
Prifysgol Aberystwyth University
Prifysgol Bangor University
University of South Wales Prifysgol De Cymru
ESF Llywodraeth Cymru Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol Cronfa Gymdeithasol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future European Social Fund